Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Diwygio Rheolau Sefydlog:** Pleidleisio drwy ddirprwy

Mawrth 2023

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell y dylai Rheolau Sefydlog dros dro 12.41A-H (pleidleisio drwy ddirprwy), a gyflwynwyd i'w treialu ym mis Mawrth 2020, ddod yn barhaol ac y dylid caniatáu pleidleisio drwy ddirprwy ym mhob math o bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn ac mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. Mae'r adroddiad hefyd yn argymell ehangu darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy i gynnwys salwch neu anaf hirdymor, cyfrifoldebau gofalu a phrofedigaeth.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B. Mae'r canllawiau i gyd-fynd â hwy, a gaiff eu cyhoeddi gan y Llywydd, yn Atodiad C.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ... 3**

Pleidleisio drwy ddirprwy ... 3

Adolygiad o’r darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy ... 3

**2. Casgliadau'r Pwyllgor Busnes ... 6**

**3. Darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy ... 8**

Pleidleisio drwy ddirprwy mewn achosion o absenoldeb rhiant ... 8

Ehangu darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy ... 8

Cyfyngiadau ar bleidleisio drwy ddirprwy ... 8

Canllawiau ... 8

**4. Penderfyniad ... 10**

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 12, a nodiadau esboniadol ... 11**

**Atodiad B: Rheolau Sefydlog 12, wedi’u diwygio ... 13**

**Atodiad C: Canllawiau i'r Aelodau ... 14**

# 1. Y cefndir

## Pleidleisio drwy ddirprwy

**1.** Ar 11 Mawrth 2020 cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd ar Reolau Sefydlog dros dro 12.41A-H (pleidleisio drwy ddirprwy) er mwyn hwyluso cynllun i dreialu pleidleisio drwy ddirprwy yn sgil absenoldeb rhiant. Bwriadwyd i'r darpariaethau hyn ddod i ben yn wreiddiol ar 6 Ebrill 2021 ond cawsant eu hestyn ar ddau achlysur wedyn. Yn niffyg pleidlais gan y Senedd i gadw, i estyn neu i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, daw'r darpariaethau hyn i ben yn awtomatig ar 1 Ebrill 2023.

**2.** Mae dau Aelod wedi pleidleisio drwy ddirprwy yn unol â Rheol Sefydlog 12.41A wrth dreialu'r cynllun: yn y Bumed Senedd, trefnodd Bethan Sayed AS i Dai Lloyd AS weithredu fel ei dirprwy rhwng 8 Gorffennaf 2020 ac 8 Ionawr 2021; ac yn y Chweched Senedd, trefnodd Adam Price AS i Siân Gwenllian AS weithredu fel ei ddirprwy rhwng 7 Mehefin a 18 Gorffennaf 2021.

## Adolygiad o'r darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy

**3.** Ym mis Tachwedd 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu'r darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy. Roedd cwmpas yr adolygiad hwn yn cynnwys dwy elfen:

- ystyried y posibilrwydd o wneud y darpariaethau presennol (ar gyfer absenoldeb rhiant) yn barhaol, naill ai gyda diwygiadau neu hebddynt; ac
- ystyried estyn cwmpas y cynllun i gynnwys Aelodau sy'n absennol o'r Senedd oherwydd salwch neu anaf hirdymor, a chyfrifoldebau gofalu eraill.

**4.** Ers cyflwyno pleidleisio drwy ddirprwy, mae arferion gwaith yn y Senedd wedi newid - yn bennaf mewn ymateb i bandemig COVID-19. Yn dilyn adolygiad o'r Rheolau Sefydlog dros dro (Gweithdrefnau Brys) a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig i hwyluso parhad busnes y Senedd, daeth y  Pwyllgor Busnes i'r casgliad y dylai'r gallu i gyfranogi a phleidleisio o bell yn y Cyfarfod Llawn gael eu cynnal a'u hymgorffori yn y Rheolau Sefydlog yn barhaol.

**5.** Yn sgil datblygu dulliau o gymryd rhan o bell a phleidleisio o bell yn nhrafodion y Senedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddechrau'r adolygiad o

bleidleisio drwy ddirprwy y dylid cyfyngu cymhwysedd i sefyllfaoedd pan fydd Aelod yn absennol o holl drafodion y Senedd.

**6.** Er mwyn llywio ei benderfyniadau, gwahoddodd y Pwyllgor Busnes dystiolaeth gan amrywiaeth o ffynonellau.

- 25 ymateb i arolwg dienw o Aelodau o'r Senedd;
- ymateb ysgrifenedig gan grŵp Plaid Cymru yn y Senedd (sylwer, ni ofynnwyd yn benodol am ymatebion gan grwpiau);
- tri ymateb ar wahân gan Aelodau sydd wedi defnyddio pleidleisio drwy ddirprwy yn y gorffennol, naill ai drwy gael yr hawl i bleidleisio drwy ddirprwy neu fwrw pleidlais ar ran Aelod arall.

**7.** Roedd mwyafrif yr ymatebion a gafwyd yn cefnogi'r bwriad i Reolau Sefydlog dros dro sy'n cwmpasu absenoldeb rhiant gael eu gwneud yn barhaol. Y prif resymau a roddwyd o blaid cynnal y cynllun oedd: helpu i ddenu aelodaeth amrywiol ar gyfer y Senedd; ac am na ddylid cosbi Aelodau am fod yn rhieni.

**8.** Roedd mwyafrif yr ymatebion a dderbyniwyd hefyd yn cefnogi'r bwriad i ehangu darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy i gynnwys ystod ehangach o resymau pam mae Aelodau yn absennol o drafodion. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys y farn y byddai'r darpariaethau hyn yn cefnogi Senedd fwy amrywiol a chynrychiadol, a bod trefniadau ffurfiol yn fwy addas ar gyfer cyfnodau hir o absenoldeb gan fod 'paru' Aelodau, yn anffurfiol, yn dibynnu ar 'ewyllys da gwleidyddol'.

**9.** Fodd bynnag, roedd dros draean y rhai a ymatebodd yn gwrthwynebu parhad y darpariaethau presennol ac unrhyw ehangu. Wrth fynegi'r safbwynt hwn, nododd yr Aelodau eu bod yn ffafrio defnyddio'r system baru i ddarparu ar gyfer unrhyw absenoldebau tymor byr neu hirdymor o drafodion y Senedd.

**10.** Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd fod datblygiadau sylweddol wedi bod mewn darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy mewn seneddau eraill y DU ers i'r Rheolau Sefydlog dros dro gael eu cyflwyno gyntaf yn y Senedd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno darpariaethau parhaol neu dros dro ar gyfer ystod o absenoldebau yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

**11.** Yn ystod ei drafodaethau, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried sut y gallai sicrhau bod opsiynau i Aelodau yn cael eu diogelu yn y dyfodol a'u bod yn creu

cyfle cyfartal i bob Aelod sy'n dymuno gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy. O'r herwydd, yn ogystal ag ystyried y mathau o absenoldebau a fyddai'n gymwys ar gyfer pleidlais drwy ddirprwy, fe wnaeth y Pwyllgor hefyd adolygu'r cyfnodau byrraf a'r cyfnodau hwyaf ar gyfer y bleidlais drwy ddirprwy.

# 2. Casgliadau'r Pwyllgor Busnes

**12.** Trafododd y Pwyllgor Busnes y materion a oedd yn deillio o’i adolygiad mewn cyfarfodydd ar 7, 14 a 28 Chwefror a 14 Mawrth 2023. Yng ngoleuni’r safbwyntiau a’r dystiolaeth a ddaeth i law, mae mwyafrif y Pwyllgor yn cynnig y canlynol:

- Bod y darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy yn sgil absenoldeb rhiant yn cael eu gwneud yn barhaol;
- Dylid diwygio'r cyfnodau hwyaf ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy yn sgil absenoldeb rhiant i godi i saith mis ar gyfer mam neu dad baban, partner person sy'n rhoi genedigaeth, rhiant mabwysiadol, neu ofalwr mewn trefniant benthyca croth. O hyn, caiff uchafswm o un mis ei gymryd cyn y dyddiad y disgwylir genedigath y baban, y dyddiad mabwysiadu neu ddyddiad benthyg croth.
- Dylid defnyddio disgresiwn y Llywydd dim ond i benderfynu ar hyd trefniadau pleidleisio drwy ddirprwy pan fydd Aelod neu eu partner yn colli baban yn y groth neu pan fydd baban yn marw ar enedigaeth ac nid cymhwysedd yr Aelod i gael pleidlais drwy ddirprwy.
- Dylid ehangu darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy i gynnwys cyfnodau pan fydd Aelod yn absennol oherwydd salwch neu anaf hirdymor, cyfrifoldebau gofalu a phrofedigaeth.
- Pe bai Aelod yn absennol oherwydd salwch neu anaf hirdymor neu am resymau cyfrifoldebau gofalu, dylai hyd cychwynnol trefniant pleidleisio drwy ddirprwy fod rhwng pedair wythnos a chwe mis, gyda'r potensial i estyn hyn yn ôl disgresiwn y Llywydd.
- Pe bai Aelod yn absennol oherwydd profediagaeth, mae hyd y cyfnod pleidleisio drwy ddirprwy i'w gytuno rhwng yr Aelod a'r Llywydd, a gellir ei estyn yn ôl disgresiwn y Llywydd.
- Dylid caniatáu pleidleisio drwy ddirprwy ym mhob math o bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn a Phwyllgor o'r Senedd Gyfan, gan gynnwys y rhai sy'n gofyn am basio penderfyniad neu gynnig ar bleidlais lle nad yw nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid yn llai na dwy ran o dair o gyfanswm seddi'r Senedd, neu pan fyddai'r bleidlais drwy ddirprwy yn cyfrif tuag at y nifer sydd ei angen ar gyfer cworwm.

- Dylai'r Llywydd barhau i allu defnyddio disgresiwn wrth benderfynu ar faterion ynghylch cymhwysedd unigolion i gael pleidlais drwy ddirprwy a hyd trefniadau o'r fath.
- Gallai trefniadau paru barhau i gael eu defnyddio ar gyfer absenoldebau byrrach, neu absenoldebau hwy os mai dyna ddewis yr Aelod penodol.
- Dylai'r Pwyllgor Busnes adolygu darpariaethau o ran pleidleisio drwy ddirprwy cyn diwedd y Chweched Senedd.

**13.** Ar sail barn y mwyafrif, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod y casgliadau hyn yn cael eu hadlewyrchu drwy newidiadau i Reol Sefydlog 12 a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddir gan y Llywydd.

**14.** Datganodd Darren Millar AS wrthwynebiad y Grŵp Ceidwadol i gadw darpariaethau presennol ac ehangu pleidleisio drwy ddirprwy.

# 3. Darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy

**15.** Mae’r Pwyllgor Busnes wedi ystyried y safbwyntiau a ddaeth i law a’r defnydd o ddarpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy hyd yma ac mae wedi gwneud y cynigion a ganlyn i wneud diwygiadau i Reolau Sefydlog:

## Pleidleisio drwy ddirprwy mewn achosion o absenoldeb rhiant

**16.** Cynigir bod Rheol Sefydlog 12.41H yn cael ei dileu er mwyn gwneud darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy yn sgil absenoldeb rhiant yn barhaol. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y newid hwn er mwyn diogelu'r opsiynau sydd ar gael i Aelodau yn y dyfodol ac fel bod gan Aelodau sy'n absennol o'r trafodion am y rhesymau a ragnodir y modd i fynegi eu barn ar benderfyniadau gerbron y Senedd.

## Ehangu darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy

**17.** Cynigir bod Rheol Sefydlog 12.41A yn cael ei diwygio i gynnwys absenoldebau ar gyfer salwch neu anaf hirdymor, cyfrifoldebau gofalu a phrofedigaeth. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y newid hwn er mwyn diogelu'r opsiynau sydd ar gael i Aelodau yn y dyfodol ac fel bod gan Aelodau sy'n absennol o'r trafodion am y rhesymau a ragnodir y modd i fynegi eu barn ar benderfyniadau gerbron y Senedd.

## Cyfyngiadau ar bleidleisio drwy ddirprwy

**18.** Cynigir bod Rheolau Sefydlog 12.41C – D yn cael eu dileu er mwyn caniatáu i bleidlais drwy ddirprwy gael ei bwrw ym mhob math o bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn ac ym Mhwyllgor y Senedd Gyfan, a galluogi pleidlais drwy ddirprwy i gyfrif tuag at nifer yr Aelodau sydd eu hangen er mwyn i bleidlais fod yn ddilys. Cynigir hyn er mwyn sicrhau fod gan bleidlais drwy ddirprwy statws cyfartal i bleidlais a gaiff ei bwrw gan Aelod yn uniongyrchol. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn cynnig mân welliant i Reol Sefydlog 12.41B.

## Canllawiau

**19.** Cynigir diwygio Rheol Sefydlog 12.41G i ddileu cyfeiriad at absenoldeb rhiant, gyda'r effaith y bydd canllawiau'n ymdrin â phob math o bleidleisio drwy ddirprwy.

**20.** Mae Rheol Sefydlog 12.41G yn cyfarwyddo'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, i gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau ar weithrediad y weithdrefn pleidleisio drwy ddirprwy. Mae'r canllawiau'n ymdrin â threfniadau ymarferol a gweithdrefnol megis cymhwystra, y cyfnodau byrraf a hwyaf, dynodi dirprwy, cyhoeddi ac amrywio'r trefniant, a'r egwyddorion ar gyfer arfer y bleidlais drwy ddirprwy. Mae'n rhoi disgresiwn i'r Llywydd benderfynu ar gydymffurfedd â'r cynllun os bydd unrhyw amwysedd. Diwygiwyd y canllawiau hynny i adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed yn ystod yr adolygiad hwn ac mae i'w weld yn Atodiad C.

# 4. Penderfyniad

**21.** Ar 21 Mawrth 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, a gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

**22.** Gwahoddir y Senedd i nodi hefyd y bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi gan y Llywydd yn unol â Rheol Sefydlog 6.17 - a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes - i gwmpasu ystod o faterion, gan gynnwys cymhwysedd, lleiafswm ac uchafswm hydoedd, dynodi dirprwy, cyhoeddi ac amrywio'r trefniant, ac egwyddorion ar gyfer arfer y bleidlais drwy ddirprwy ac y bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r canllawiau hyn i'w gweld yn Atodiad C.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 12, a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfod Llawn** | |
|---|---|
| Penderfyniadau ar Gynigion a Gwelliannau | Cadw'r is-bennawd. |
| 12.41A Caiff Aelod, oherwydd absenoldeb o'~~r~~ holl drafodion y Senedd yn sgil absenoldeb rhiant, salwch neu anaf hirdymor, cyfrifoldebau gofalu neu absenoldeb profedigaeth drefnu bod Aelod arall yn bwrw pleidlais ar ei ran fel dirprwy (pleidlais drwy ddirprwy). | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r gwelliant arfaethedig yn mewnosod rhesymau ychwanegol dros absenoldeb o drafodion y Senedd a fyddai'n rhoi hawl i Aelod wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ac yn egluro y byddai'n berthnasol mewn amgylchiadau lle byddai Aelod yn absennol o’r holl drafodion, gan gynnwys y rhai a gynhelir yn rhithiol neu mewn fformat hybrid. |
| 12.41B ~~Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 12.41C, c~~Caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy ar holl fusnes y Cyfarfod Llawn (gan gynnwys pleidleisiau cyfrinachol o dan Reol Sefydlog 6 a Rheol Sefydlog 17) a Phwyllgor o'r Senedd Gyfan. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r gwelliant arfaethedig yn dileu cyfeiriad at Reol Sefydlog y mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn bwriadu ei dileu. |
| ~~12.41C Ni chaniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy pan fo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Cynigir bod y Rheol Sefydlog yn cael ei dileu fel bod hawl i bleidleisio drwy ddirprwy ym mhob math o bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn a Phwyllgor o'r Senedd Gyfan. |

| **RHEOL SEFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfod Llawn** | |
|---|---|
| ~~12.41D Rhaid i bleidlais drwy ddirprwy beidio â chyfrif tuag at y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn pleidlais at ddibenion Rheol Sefydlog 12.46.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Cynigir bod y Rheol Sefydlog yn cael ei dileu fel bod hawl i bleidleisio drwy ddirprwy ym mhob math o bleidleisio yn y Cyfarfod Llawn a Phwyllgor o'r Senedd Gyfan. |
| 12.41E Dim ond os yw'r Llywydd wedi ardystio bod yr Aelod y mae'r bleidlais i'w bwrw ar ei ran yn gymwys o dan delerau Rheol Sefydlog 12.41A caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 12.41F Rhaid dangos pleidlais a gafodd ei bwrw gan ddirprwy yn glir yn y cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn neu yng nghofnodion Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 12.41G Rhaid i'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau o dan Reol Sefydlog 6.17 ar weithredu'r drefn pleidleisio drwy ddirprwy ~~ar gyfer absenoldeb rhiant~~. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Cynigir bod y Rheol Sefydlog yn cael ei diwygio i alluogi'r Llywydd i gyhoeddi canllawiau sy'n ymdrin â phob agwedd ar bleidleisio drwy ddirprwy. |
| ~~12.41H Bydd Rheolau Sefydlog 12.41A – H, a'r cyfeiriadau atynt yn Rheolau Sefydlog 12.41 a 17.48, yn peidio â chael effaith ar 1 Ebrill 2023.~~ | Dileu'r Rheol Sefydlog<br>Cynigir bod y Rheol Sefydlog yn cael ei dileu er mwyn dileu'r dyddiad dod i ben er mwyn gwneud y darpariaethau'n barhaol. |

# Atodiad B: Rheolau Sefydlog 12, wedi'u diwygio

12.41A Caiff Aelod, oherwydd absenoldeb o holl drafodion y Senedd yn sgil absenoldeb rhiant, salwch neu anaf hirdymor, cyfrifoldebau gofalu neu absenoldeb profedigaeth drefnu bod Aelod arall yn bwrw pleidlais ar ei ran fel dirprwy (pleidlais drwy ddirprwy).

12.41B Caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy ar holl fusnes y Cyfarfod Llawn (gan gynnwys pleidleisiau cyfrinachol o dan Reol Sefydlog 6 a Rheol Sefydlog 17) a Phwyllgor o'r Senedd Gyfan.

12.41C [Dilëwyd y Rheol Sefydlog drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth 2023]

12.41D [Dilëwyd y Rheol Sefydlog drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth 2023]

12.41E Dim ond os yw'r Llywydd wedi ardystio bod yr Aelod y mae'r bleidlais i'w bwrw ar ei ran yn gymwys o dan delerau Rheol Sefydlog 12.41A caniateir bwrw pleidlais drwy ddirprwy.

12.41F Rhaid dangos pleidlais a gafodd ei bwrw gan ddirprwy yn glir yn y cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn neu yng nghofnodion Pwyllgor o'r Senedd Gyfan.

12.41G Rhaid i'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau o dan Reol Sefydlog 6.17 ar weithredu'r drefn pleidleisio drwy ddirprwy.

12.41H [Dilëwyd y Rheol Sefydlog hon drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth 2023]

# Atodiad C: Canllawiau i'r Aelodau

## Pleidleisio drwy ddirprwy

### Cyflwyniad

224. Caiff y gweithdrefnau ar gyfer arfer Pleidlais drwy Ddirprwy eu nodi o dan Reolau Sefydlog 12.41A-G.

### Absenoldeb Rhiant

#### Cymhwystra

225. Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau genedigaeth, gofalu am faban neu blentyn sydd newydd ei fabwysiadu, neu sy'n rhan o drefniant benthyg croth, neu oherwydd camesgoriad neu farw-enedigaeth.

226. Rhaid i Aelod ddangos cymhwystra ar gyfer y cynllun drwy hysbysu'r Llywydd am eu bwriad i gymryd absenoldeb rhiant, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.

227. Nid yw'r cynllun yn orfodol ac mae Aelodau'n rhydd i bleidleisio'n bersonol neu ddefnyddio unrhyw drefniadau paru anffurfiol eraill sydd ar gael iddynt.

228. Os bydd unrhyw amwysedd, bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ar gydymffurfedd â'r cynllun pleidleisio drwy ddirprwy.

#### Hyd

229. Yn amodol ar ddisgresiwn y Llywydd, cyfnod hwyaf yr hawl i bleidleisio drwy ddirprwy yw:

- saith mis i fam fiolegol baban; y prif fabwysiadwr neu fabwysiadwr sengl sy'n mabwysiadu baban neu blentyn; neu'r prif ofalwr neu ofalwr sengl mewn trefniant benthyg croth; a
- saith mis i'r tad biolegol neu bartner yr unigolyn sy'n rhoi genedigaeth sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn; yr ail fabwysiadwr ar gyfer baban neu blentyn; neu ail ofalwr ar gyfer baban neu blentyn mewn trefniant benthyg croth.

230. O hyn, bydd uchafswm o bedair wythnos yn cael ei gymryd cyn y dyddiad y disgwylir genedigath y baban, y dyddiad mabwysiadu neu ddyddiad benthyg croth ac uchafswm o chwe mis ar ôl y dyddiad y disgwylir genedigath y baban, y dyddiad mabwysiadu neu ddyddiad benthyg croth.

231. Bydd hyd y cyfnod yn cynnwys cyfnodau pan fydd y Senedd mewn toriad neu wedi'i diddymu. Mewn amgylchiadau eithriadol gall y Llywydd ddefnyddio disgresiwn i amrywio'r hyd.

232. Rhaid i Aelod nodi'n ysgrifenedig i'r Llywydd y dyddiadau y bydd yr absenoldeb yn dechrau ac yn dod i ben, yn amodol ar y cyfnodau hwyaf a ganiateir. Mae gan yr Aelod hawl i fwrw pleidlais drwy ddirprwy am y cyfnod a bennir yn y dystysgrif a roddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 12.41E (paragraff 249).

233. Defnyddir disgresiwn y Llywydd i bennu cyfnodau hwyaf ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy pan fydd Aelodau neu eu partneriaid wedi dioddef camesgoriad neu farw-enedigaeth. Wrth bennu ffactorau o'r fath, bydd y Llywydd yn ystyriol o hawliau statudol.

## Salwch neu anaf hirdymor a chyfrifoldebau gofalu

### Cymhwystra

234. Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau salwch neu anaf personol hirdymor, neu oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.[1]

235. Rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd am eu bwriad i gymryd absenoldeb, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.

236. Nid yw'r cynllun yn orfodol ac mae Aelodau'n rhydd i bleidleisio'n bersonol neu ddefnyddio unrhyw drefniadau paru anffurfiol eraill sydd ar gael iddynt.

237. Os bydd unrhyw amwysedd, bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ar gydymffurfedd â'r cynllun pleidleisio drwy ddirprwy.

[1] Fel arfer, bydd cyfrifoldebau gofalu yn cyfeirio at ofal sydd ei angen mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft mewn perthynas â salwch neu anaf hirdymor, ac ni fwriedir iddo gynnwys cyfrifoldebau gofalu arferol neu barhaol.

### Hyd

238. Hyd yr hawl i bleidleisio trwy ddirprwy yw o leiaf bedair wythnos ac uchafswm o chwe mis, gan gynnwys cyfnodau pan fo'r Senedd mewn toriad neu wedi'i diddymu. Mewn amgylchiadau eithriadol gall y Llywydd ddefnyddio disgresiwn i estyn hyd trefniadau pleidleisio drwy ddirprwy.

239. Rhaid i Aelod nodi'n ysgrifenedig i'r Llywydd y dyddiadau y bydd yr absenoldeb yn dechrau ac yn dod i ben, yn amodol ar y cyfnodau hwyaf a ganiateir. Mae gan yr Aelod hawl i fwrw pleidlais drwy ddirprwy am y cyfnod a bennir yn y dystysgrif a roddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 12.41E (paragraff 249).

## Profedigaeth

### Cymhwystra

240. Mae pleidleisio drwy ddirprwy ar gael i Aelodau sy'n absennol o holl drafodion y Senedd am resymau profedigaeth.

241. Rhaid i Aelod hysbysu'r Llywydd am eu bwriad i gymryd absenoldeb, a darparu unrhyw ddogfennaeth neu fathau o hysbysiad ychwanegol sy'n briodol ym marn y Llywydd.

242. Nid yw'r cynllun yn orfodol ac mae Aelodau'n rhydd i bleidleisio'n bersonol neu ddefnyddio unrhyw drefniadau paru anffurfiol eraill sydd ar gael iddynt.

243. Os bydd unrhyw amwysedd, bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ar gydymffurfedd â'r cynllun pleidleisio drwy ddirprwy.

### Hyd

244. Mae hyd pleidlais drwy ddirprwy oherwydd profedigaeth i'w gytuno rhwng yr Aelod a'r Llywydd, a gellir ei estyn yn ôl disgresiwn y Llywydd. Bydd hyd y cyfnod yn cynnwys cyfnodau pan fydd y Senedd mewn toriad neu wedi'i diddymu.

245. Rhaid i Aelod nodi'n ysgrifenedig i'r Llywydd y dyddiadau y bydd yr absenoldeb yn dechrau ac yn dod i ben. Mae gan yr Aelod hawl i

fwrw pleidlais drwy ddirprwy am y cyfnod a bennir yn y dystysgrif a roddir gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 12.41E (paragraff 249).

## Darpariaethau cyffredinol

246. Mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys ym mhob amgylchiad.

## Dynodi dirprwy

247. Wrth nodi dyddiadau'r absenoldeb, rhaid i'r Aelod sy'n gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy enwi'r Aelod sydd wedi cytuno i bleidleisio ar eu rhan fel dirprwy, a thrwy hynny gadarnhau bod cytundeb wedi'i wneud.

248. Mae Aelod yn rhydd i ddewis unrhyw Aelod arall i bleidleisio ar eu rhan fel dirprwy, ar yr amod bod yr Aelod arall yn cytuno a bod y Llywydd yn cael ei hysbysu.

## Cyhoeddi'r trefniant

249. Ar ôl cael y wybodaeth hon, ac unwaith y bydd y Llywydd wedi penderfynu ynghylch cydymffurfedd, bydd y Llywydd yn cyflwyno tystysgrif yn nodi enw'r Aelod a enwebwyd yn ddirprwy a'r dyddiadau dechrau a gorffen. Bydd y dystysgrif yn nodi bod y bleidlais drwy ddirprwy wedi'i rhoi am resymau'n ymwneud ag absenoldeb rhiant, salwch neu anaf hirdymor, cyfrifoldebau gofalu neu brofedigaeth, ond ni fydd yn nodi unrhyw fanylion pellach mewn perthynas â'r amgylchiadau.

250. Bydd y 'crynodeb o bleidleisiau' ar gyfer pob Cyfarfod Llawn neu Bwyllgor o'r Senedd Gyfan yn nodi bod pleidlais drwy ddirprwy wedi'i bwrw drwy restru'r Aelod a sut y gwnaeth bleidleisio yn y ffordd arferol, yn unol â Rheolau Sefydlog 12.48 a 17.35, a thrwy nodi pa Aelod a fwriodd y bleidlais drwy ddirprwy ar eu rhan.

## Amrywio'r trefniant

251. O ran Aelod sydd am newid yr Aelod sy'n ddirprwy ar eu rhan, dod â'r cyfnod o bleidleisio drwy ddirprwy i ben yn gynharach na'r hyn a hysbyswyd yn wreiddiol, neu fwrw pleidlais yn bersonol ar (a) eitem(au) busnes penodol, neu atal y trefniant am gyfnod o amser, rhaid iddynt roi rhybudd ysgrifenedig i'r Llywydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r amgylchiadau a arweiniodd at wneud y

cais ddod yn hysbys (er enghraifft, cyhoeddi agenda'r Cyfarfod Llawn, cyflwyno cynnig). Gall Aelod hefyd ofyn am gymryd rhan yn nhrafodion y Senedd tra mae'n meddu ar bleidlais drwy ddirprwy. Bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ynghylch cydymffurfio yn yr amgylchiadau hyn.

252. Bydd y Llywydd yn cyhoeddi ac yn gosod tystysgrif newydd o dan baragraff 235 os bydd angen.

253. Bydd newidiadau o ran dirprwy a wneir am gyfnod penodol yn dod i rym o ddechrau (neu ddiwedd) y diwrnod(au) a nodir.

## Arfer pleidlais drwy ddirprwy

254. Rhaid i Aelod sy'n gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy gytuno â'r Aelod a enwebir yn ddirprwy ar eu rhan pryd y bydd y bleidlais ddirprwy yn cael ei bwrw a sut y bydd yn cael ei harfer ar gyfer pob pleidlais.

255. Rhaid i Aelod a ddynodir yn ddirprwy weithredu yn unol â'r cyfarwyddyd a roddir gan yr Aelod absennol.

256. Caiff Aelod a ddynodir yn ddirprwy fwrw eu pleidlais ei hun un ffordd a bwrw pleidlais fel dirprwy y ffordd arall, a chaiff fwrw pleidlais fel dirprwy heb fwrw eu pleidlais ei hun o gwbl.

257. O ran Aelod y cofrestrwyd eu bod yn pleidleisio drwy ddirprwy ac sydd am bleidleisio'n bersonol, bydd ganddynt hawl i wneud hynny, ar yr amod yr hysbyswyd y Llywydd cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r amgylchiadau a arweiniodd at wneud y cais ddod yn hysbys (paragraff 251). Bydd y Llywydd yn defnyddio disgresiwn i benderfynu ynghylch cydymffurfiaeth yn yr amgylchiadau hyn.

258. Rhaid i Aelod sy'n gymwys i bleidleisio drwy ddirprwy hysbysu'r Aelod a enwir yn ddirprwy ar ei ran am unrhyw fuddiant perthnasol sy'n eu gwahardd rhag pleidleisio o dan Reol Sefydlog 2.9.

## Trefniadau ymarferol ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy

259. Bydd y Clerc yn gwneud trefniadau ymarferol gyda'r Aelod a enwebir yn ddirprwy i arfer y bleidlais drwy ddirprwy.